# "Y Ddadl Dros Ofal"

## Astudiaeth ystod ar effaith darparu gofal ar economi Cymru

Crynodeb Gweithredol

Astudiaeth Ystod Gofal

*Chwarae Teg 2003 ©*

# Cefndir

Comisiynwyd y gwaith ymchwil hon gan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Astudiaeth oedd hon i archwilio i ba raddau y mae darparu gofal ar gyfer plant, pobl hŷn a phobl ddibynnol eraill yn rhwystro pobl rhag cael gwaith. Ystyriwyd sut yr oedd cyfrifoldebau gofalu yn effeithio ar gydraddoldeb rhwng y ddau ryw yn y farchnad lafur. Archwiliwyd hefyd swyddogaeth gofal yn yr economi gymdeithasol gan argymell sut y gellid cryfhau'r sector a'i gynorthwyo i dyfu.

Edrychai'r astudiaeth ystod ar y ddarpariaeth gofal cymdeithasol yng nghyd-destun gweithio a gofalu. Roedd hefyd yn archwilio'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol o safbwynt economaidd. Bu'r astudiaeth yn gyfuniad o ddata ansoddol a meintiol, tystiolaeth ar sail ymgynghori, a gwybodaeth a chanfyddiadau gwaith ymchwil.

Cwblhawyd yr astudiaeth ar y cyd â Phrifysgol Cymru, Bangor ac fe'i noddwyd drwy gyfrwng CYMORTH CYMRU a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

*I gael mwy o wybodaeth am yr astudiaeth hon, cysylltwch â*

**Chwarae Teg ar 029 20 478 900**


*Chwarae Teg 2003 ©*

Chwarae Teg Fairplay

# Prif Ganfyddiadau

## Gofal safonol, rhwydd ac y gellir ei fforddio

- Mae diffyg gofal plant o safon sydd ar gael yn rhwydd ac y gall pobl ei fforddio yn dal i fod yn un o'r prif rwystrau sy'n atal menywod rhag cael gwaith a chadw gafael ar eu swyddi.

- Mae'r problemau'n aml yn fwy cymhleth i rieni plant gydag anableddau. Mae angen teilwrio'r gwasanaethau cefnogi i ddiwallu eu hanghenion penodol.

- Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth ofal yng Nghymru'n brin o gyllid. Er mwyn sicrhau llwyddiant y sector, mae'n hollbwysig cymryd camau ar y cyd i ddarparu fframwaith gofal plant effeithiol.

- Mae angen mynd i'r afael â'r ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig ac archwilio ymhellach anghenion pobl sydd, o bosibl, yn wynebu aml anfanteision, megis rhieni sengl.


*Chwarae Teg 2003 ©*

## Gweithio a Gofalu

■ Mae angen edrych ar ffyrdd newydd o helpu gofalwyr anghyflogedig i ymuno â'r farchnad lafur. Byddai hyn yn cynnwys archwilio i'r fagl budd-daliadau sy'n dal i fodoli; cydnabod sgiliau y gellir eu trosglwyddo i'r gweithlu a datblygu polisïau ac arferion sy'n caniatáu ar gyfer cydbwyso bywyd a gwaith.

## Cydraddoldeb rhwng y ddau ryw a'r bwlch cyflog rhyngddynt

■ Yn aml iawn, bydd gyrfaoedd menywod yn dioddef o ganlyniad i ddifyg darpariaeth gofal plant. Mae hyn yn golygu'n fynych eu bod yn derbyn swyddi ar gyflog is er mwyn iddynt allu ysgwyddo'u cyfrifoldebau gofalu.

■ Mae'r astudiaeth yn nodi'r cysylltiad rhwng y diffyg darpariaeth gofal plant yng Nghymru a'r bwlch cyflog rhwng y ddau ryw. Mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil ar y pwnc hwn er mwyn llunio argymhellion ynghylch sut i fwrw ymlaen.

## Gofal a'r economi – swyddogaeth a sylweddoli

■ Mae'r dystiolaeth yn yr astudiaeth yn dangos bod angen cryfhau'r economi gymdeithasol, a bod gofal yn chwarae rhan hollbwysig yn yr ehangu hwn.


*Chwarae Teg 2003 ©*

■ Yn ôl yr ymgynghori, hyd yn hyn, nid yw pobl yn sylweddoli'n llwyr beth yw swyddogaeth gofal fel rhan o'r economi gymdeithasol yng Nghymru. Y rheswm dros hyn yw bod llawer o fusnesau gofal yn y gymuned yn eu hystyried eu hunain yn ddarparwyr gwasanaethau cymunedol, yn hytrach nag yn fusnes. Mae llawer hefyd sydd yn teimlo nad ydynt yn cael eu cydnabod yn rhan o'r economi, ac, o ganlyniad, maent yn teimlo nad oes digon o werth yn cael ei roi arnynt.

■ Drwy gynyddu'r ddarpariaeth ofal yn lleol ac yn genedlaethol a'i gwella, bydd yr economi gymdeithasol yn ffynnu, a bydd pobl yn dechrau sylweddoli fod gan ofal ran hollbwysig.

## Pennu gwerth gofal

■ Mae gofalwyr yn rhan hanfodol o'r economi. Heb eu cyfraniad di-dâl, byddai strwythur gofal cymdeithasol yng Nghymru'n dadfeilio.

■ Er nad yw'r gofalwyr eu hunain yn derbyn tâl am y gofal y maent yn ei ddarparu, ac er eu bod o bosibl yn gweithio'n llawn amser neu'n rhan-amser, yn aml iawn, bydd neb yn eu gweld na'u cydnabod.

■ Mae'r astudiaeth hefyd yn pwysleisio bod gan ofalwyr ran aruthrol i'w chwarae yn yr economi. Felly, mae angen cydnabod rôl gofalwyr yn yr economi a'i deall yn llawn – dim ond bryd hynny y gall yr economi yn ei chyfanrwydd ddatblygu hyd ei heithaf.


*Chwarae Teg 2003 ©*

Chwarae Teg Fairplay

# Casgliadau ac Argymhellion

❑ Archwilio a datblygu cynlluniau arloesol a threialu prosiectau er mwyn mynd i'r afael â darparu gofal o safon sydd ar gael yn rhwydd ac y gall pobl ei fforddio

❑ Edrych pa mor ymarferol fyddai sefydlu cyngor sgiliau i'r sector gofal yng Nghymru

❑ Ystyried y posibilrwydd o ddarparu gofal plant am ddim neu gyda chymhorthdal i bob plentyn dan 3 oed

❑ Archwilio ffyrdd o sefydlu gwasanaeth cefnogi mwy cynhwys fawr i ofalwyr ifanc mewn ysgolion

❑ Dynodi a chefnogi sefydliad ar gyfer Cymru gyfan i fwrw ymlaen gyda'r Cydbwysedd Bywyd a Gwaith :

- datblygu esiamplau o arferion da
- datblygu a chyflwyno pecynnau hyfforddi i gyflogwyr

## Datblygu gofal yn yr economi gymdeithasol:

- parhau gyda gwasanaethau cefnogi arbenigol
- codi proffil y sector gofal ar y cyd â phartneriaid eraill
- cyllido busnesau gofal sy'n bodoli eisoes er mwyn iddynt ddatblygu
- hyrwyddo diwylliant entrepreneuraidd ym maes gofal yn yr economi gymdeithasol
- archwilio ffyrdd o leihau'r gwaith papur gymaint ag y bo modd ar gyfer y broses o gofrestru busnesau sy'n gofalu am blant a'r henoed

❑ Ystyried ffyrdd o gynyddu cyflogau gweithwyr gofal yn yr economi gymdeithasol ac economi Cymru drwyddi draw

❑ Datblygu'n bellach yr esiamplau arferion da sy'n bodoli eisoes

Chwarae Teg Fairplay